HELPA FI I STOPIO I FY MABI - HELP ME QUIT FOR BABY

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

**ENW'R CLEIENT:** ______________________ **DYDDIAD:** ____________________

Mae'r cwestiynau canlynol yn caniatáu i sgôr dibyniaeth nicotin y cleient gael ei chyfrifo. Dyw gofyn faint o sigaréts y diwrnod mae'r cleient yn eu hysmygu fel arfer yn unig ddim yn ddangosydd dibynadwy o ddibyniaeth ar nicotin. Mae cyfanswm y sgorau o gwestiynau 4 i 9 yn rhoi arwydd llawer cryfach o ddibyniaeth.

Gwnewch yn siŵr bod pob cwestiwn yn cael ei ateb er mwyn cyfrifo sgôr gywir. I gael rhagor o wybodaeth am sgorau dibyniaeth ar nicotin, darllenwch fwy am Fagerstrom (Heatherton, T.F., Kozlowki, L.T., Frecker, R.C. a Fagerstrom, K.O.  1991. The Fagerstrom test for nicotine dependence: A revision of the Fagerstrom tolerance questionnaire.  British Journal of Addictions 16: 1119-27).

Dylai'r Cynghorydd gyfrifo'r sgôr drwy nodi cyfanswm y pwyntiau o gwestiynau 4 i 9. Bydd y sgôr yn amrywio o 0 i 10 – 10 yw'r lefel uchaf o ddibyniaeth. Yna gall y sgôr gael ei thrafod gyda'r cleient.

Dibyniaeth isel ar nicotin – 0 i 3 phwynt
Dibyniaeth ganolig ar nicotin – 4 i 5 pwynt
Dibyniaeth uchel ar nicotin – 6 i 10 pwynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **ERS FAINT O FLYNYDDOEDD RYDYCH CHI WEDI YSMYGU NEU BETH OEDD EICH OEDRAN PAN WNAETHOCH CHI DDECHRAU YSMYGU?** | | |
| **2** | **SAWL GWAITH RYDYCH CHI WEDI CEISIO RHOI'R GORAU I YSMYGU?** | | |
| | Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun i'r ymgais bresennol i roi'r gorau iddi a'r canlyniadau. Gall helpu i ddarparu mesur o gymhelliant y cleient i roi'r gorau i ysmygu a dylid trafod effaith ymdrechion blaenorol aflwyddiannus i roi'r gorau iddi gyda'r cleient. | | |
| **3** | **YDYCH CHI WEDI DEFNYDDIO THERAPI DISODLI NICOTIN O'R BLAEN, E.E. GWM NEU BATSYS?** | **YDW** | **NAC YDW** |
| | Bydd hyn o gymorth i'r cynghorydd rhoi'r gorau i ysmygu a'r cleient yn ystod y drafodaeth ar ddefnyddio'r opsiynau triniaeth sydd ar gael a phrofiadau blaenorol o ddefnyddio triniaeth. | | |
| **4** | **PA MOR FUAN AR ÔL I CHI DDEFFRO RYDYCH CHI'N YSMYGU EICH SIGARÉT GYNTAF?** | | |
| | Opsiwn | Sgôr | |
| | O fewn 5 munud<br>6-30 munud<br>31-60 munud | 3<br>2<br>1 | |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **YDYCH CHI'N EI CHAEL HI'N ANODD PEIDIO AG YSMYGU MEWN LLEOEDD LLE MAE WEDI EI WAHARDD?** | |
| | Mae angen i'r cleient ateb naill ai 'ydw' neu 'nac ydw'. Os oes angen, rhowch enghreifftiau i'r cleient fel yn y dafarn neu'r sinema. | |
| | Opsiwn | Sgôr |
| | Ydw<br>Nac Ydw | 1<br>0 |
| 6 | **PA SIGARÉT FYDDECH CHI'N CASÁU RHOI'R GORAU IDDI FWYAF?** | |
| | Gall y cleient ddewis naill ai sigarét gyntaf y diwrnod neu unrhyw sigarét arall. | |
| | Opsiwn | Sgôr |
| | Yr un gyntaf yn y bore<br>Unrhyw un arall | 1<br>0 |
| 7 | **FAINT O SIGARÉTS Y DIWRNOD RYDYCH CHI'N YSMYGU?** | |
| | Mae pedwar opsiwn i'r cleient ddewis ohonyn nhw yn amrywio o ddeg neu lai i 31 neu fwy. Os bydd cleient yn ansicr pa opsiwn i'w ddewis gan fod nifer y sigaréts y mae'n eu hysmygu yn amrywio, dylid ei annog i roi ateb yn seiliedig ar y nifer mae'n ei ysmygu bob diwrnod ar gyfartaledd. Os bydd y cleient yn defnyddio tybaco ar ffurf heblaw sigaréts, dylid defnyddio siart drosi i nodi'r gwerth cyfatebol mewn sigaréts. | |
| | Opsiwn | Sgôr |
| | 10 neu lai<br>11 i 20<br>21 i 30<br>31 neu fwy | 0<br>1<br>2<br>3 |
| 8 | **YDYCH CHI'N YSMYGU MWY YN YR ORIAU CYNTAF AR ÔL I CHI DDEFFRO NAG YDYCH CHI AM WEDDILL Y DIWRNOD?** | |
| | Gall y cleient ddewis 'ydw' neu 'nac ydw'. Os yw'r cleient yn ansicr, dylid ei annog i roi ateb yn seiliedig ar ba bryd y mae'n ysmygu ei sigarét gyntaf ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. | |
| | Opsiwn | Sgôr |
| | Ydw<br>Nac ydw | 1<br>0 |
| 9 | **YDYCH CHI'N YSMYGU HYD YN OED OS YDYCH CHI MOR SÂL FEL EICH BOD YN Y GWELY Y RHAN FWYAF O'R DIWRNOD?** | |
| | Gall y cleient ddewis 'ydw' neu 'nac ydw'. Os yw'r cleient yn ansicr ac yn methu cofio adeg pan oedd mor sâl fel ei fod yn y gwely am y rhan fwyaf o'r diwrnod, dylid ei annog i feddwl am y tro diwethaf iddo fod yn sâl ac a wnaeth ysmygu bryd hynny. | |
| | Opsiwn | Sgôr |
| | Ydw<br>Nac ydw | 1<br>0 |